# Neidio gyda cheffylau wedi eu hyfforddi er mwyn cynnal eu lefel hyfforddiant

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â neidio gyda cheffylau wedi eu hyfforddi er mwyn cynnal eu lefel hyfforddiant. Dylech allu osod harneisiau, cynnal safle marchogaeth addas a chydbwysedd wrth neidio ffensys hyd at 90cm (3 troedfedd). Dylech allu monitro ac adrodd ar gynnydd y ceffylau, a gwneud argymhellion ar gyfer gwella.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. dewis ac addasu harneisiau er mwyn bodloni gofynion unigol
3. neidio gyda cheffylau wedi eu hyfforddi er mwyn cynnal eu lefel hyfforddiant
4. mabwysiadu a chynnal y safle neidio priodol
5. cadw cydbwysedd tra'n neidio ffensys
6. cymryd llwybr priodol rhwng ffensys
7. addasu cyflymder ac osgo i gyd-fynd â'r dirwedd, y math o naid a'r ardal waith
8. sefydlu a chynnal hanner carlam o ansawdd sy'n caniatáu i'r ceffyl neidio'n hawdd
9. cymryd camau priodol os yw'r ceffyl yn gwrthod neidio neu'n cyffroi gormod
10. monitro cynnydd y ceffyl yn erbyn gofynion hyfforddiant a hysbysu'r person priodol
11. gwneud argymhellion yn ymwneud ag unrhyw feysydd ar gyfer gwelliant
12. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. y camau i'w cymryd os yw'r ceffyl wedi ei hyfforddi'n gwrthod neidio neu'n cyffroi gormod
3. effeithiau cyflwr y cae a'r dirwedd ar y ceffyl
4. sut i gerdded cwrs a'r rhesymau dros wneud hynny
5. dyluniad y cwrs a safle'r ffensys
6. y pellterau rhwng polion, gridiau a ffensys cyfuniad
7. y mathau o ffensys
8. pwysigrwydd mabwysiadu'r safle marchogaeth cywir ar gyfer neidio dros neidiau sioe a ffensys traws gwlad
9. sut i asesu'r ceffyl a gwneud unrhyw argymhellion ar gyfer gwelliant i'r person priodol
10. sut i adnabod problemau o ran agwedd ceffyl tuag at neidio a'r camau priodol i'w cymryd
11. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac eraill a sut y caiff y rhain eu rheoli
12. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Neidio yn yr ardaloedd gwaith canlynol:

- man caeëdig
- man agored

Neidio dros y mathau canlynol o ffens:

- sefydlog
- ansefydlog

Marchogaeth ceffylau:

- ar eich pen eich hun
- gyda chwmni

Dewis ac addasu'r harneisiau canlynol:

- cyfrwy neidio
- ffrwyn enfaog
- harneisiau eraill fel y bo angen

Marchogaeth mwy nag un ceffyl dros:

- bolion
- cwrs neidio sioe ar 3 troedfedd (0.9m)
- amrywiaeth o ffensys traws gwlad rhwng 2 droedfedd 6 modfedd a 3 troedfedd (0.8m a 0.9m) ar dirwedd amrywiol

LANEq321

Neidio gyda cheffylau wedi eu hyfforddi er mwyn cynnal eu lefel hyfforddiant

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq321 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwylydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; hyfforddiant; ymarfer |